| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD:** | **9 MEHEFIN, 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD YR OMBWDSMON AR YMCHWILIAD I GŴYN A WNAED GAN MR W YN ERBYN CYNGOR SIR YNYS MÔN (ACHOS 200901501)** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PRIF WEITHREDWR DROS DRO** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I'R CYNGOR LLAWN YSTYRIED ADRODDIAD YR OMBWDSMON A'R ARGYMHELLION** |

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Ar 25 Mawrth 2011 cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") adroddiad ("yr Adroddiad") yn unol ag Adran 16 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ("y Ddeddf") mewn perthynas ag ymchwiliad a wnaed ganddo i gŵyn yn erbyn y Cyngor.

1.2 Yn yr Adroddiad mae'r Ombwdsmon yn dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi camweinyddu ac mae'n cyflwyno argymhellion i'r Cyngor. Mae'r Adroddiad wedi'i gyhoeddi ac mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw iddo, ei gasgliadau a'i argymhellion cyn pen 3 mis i ddyddiad yr Adroddiad. Cyflwynir yr Adroddiad i'r cyfarfod hwn fel y gall y Cyngor llawn ystyried gofynion yr Adroddiad ac ymateb i'r Ombwdsmon.

1.3 Mae'r Adroddiad ynghlwm fel Atodiad i'r Adroddiad hwn. Mae'r Adroddiad yn cyfeirio at yr achwynydd fel Mr. W. Fe ŵyr yr Aelodau bod gan achwynwyr hawl i fod yn anhysbys, felly os yw Aelodau yn gwybod neu yn credu eu bod yn gwybod pwy yw'r achwynydd, fe'u hatgoffir yn barchus na ddylent, un ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ddatgelu pwy yw'r achwynydd neu roi unrhyw wybodaeth a fyddai'n gymorth i ddatgelu pwy yw'r achwynydd (e.e. trwy nodi un ai Safle A neu Safle B) yn ystod unrhyw ddatganiad neu drafodaeth ar y mater mewn sesiwn gyhoeddus.

1.4 Cyflwynir yr Adroddiad hwn mewn sesiwn gyhoeddus. Os bydd angen datgelu gwybodaeth nad yw wedi'i chynnwys yn Adroddiad yr Ombwdsmon neu os bydd aelodau angen cyngor cyfreithiol yn ystod y drafodaeth ar y materion hyn, efallai y bydd angen gwneud penderfyniad i gau allan y wasg a'r cyhoedd yn unol ag Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y cafodd ei diwygio.

## 2. Adroddiad yr Ombwdsmon

2.1 Dyddiad yr Adroddiad yw 25 Mawrth 2011 ac mae'r Cyngor wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r Adroddiad ar raddfa ac o fath y mynnwyd arnynt gan yr Ombwdsmon. Gwnaed hynny trwy hysbysebu yn y wasg, rhoi rhybudd ar y wefan a thrwy sicrhau bod copi ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor i'r cyhoedd ei archwilio.

2.2 Mae'r Adroddiad yn cynnwys crynodeb ar dudalen 2 ac mae ffeithiau'r mater wedi'u nodi'n fanylach yng nghorff yr Adroddiad. Mae'r Ombwdsmon yn nodi ei gasgliadau ym mharagraffau 88 i 99 ei Adroddiad (tudalennau 33 i 40) ac mae ei argymhellion i'w gweld ym mharagraff 100 i 103 (tudalennau 40 a 41).

2.3 Mae'r Ombwdsmon yn casglu y bu'r Cyngor yn euog o gamweinyddu fel a ganlyn:-

2.3.1 Methiant i asesu'n ddigonol effaith datblygiad ar Safle B a oedd yn andwyol i ddiogelwch y briffordd (paragraff 91, tudalen 34 yr Adroddiad), a
2.3.2 Methiant i roi sylw egniol i'r broblem a achoswyd gan y camweinyddu uchod ac a waethygwyd gan fethiant i ymateb yn ddigonol i ohebiaeth gan Asiant Mr. W (paragraff 95, tudalen 35 yr Adroddiad).

2.4 Mae eich Swyddogion yn derbyn casgliadau'r Ombwdsmon bod camweinyddu wedi digwydd a byddant yn argymell bod yr aelodau yn penderfynu derbyn y casgliadau hyn hefyd.

2.5 Mae'r Ombwdsmon yn gwneud yr argymhellion isod:

2.5.1 Bod y Cyngor yn talu swm o £30,626 i gwmni Mr. W, trwy ddau daliad, a chydag amodau penodol a ddatganwyd. Swm yw hwn i ddigolledu'r cwmni am y busnes yr amcangyfrifwyd iddo golli o 1 Medi 2008 i ddiwedd Hydref 2010 ar gyfer safle A (pwynt bwled cyntaf paragraff 101 ar dudalen 40 yr Adroddiad). Er bod yr Adroddiad yn argymell y dylid gwneud y taliad cyntaf, sef £20,000, "cyn pen 28 diwrnod i ddyddiad yr Adroddiad", rhoddir 3 mis i'r Cyngor ystyried yr Adroddiad. Cymerir mai beth y mae hynny'n ei olygu yw bod raid gwneud y taliad cyntaf cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r Cyngor ystyried yr Adroddiad.
2.5.2 Y dylai'r Cyngor ddigolledu'r cwmni o ran y gwahaniaeth rhwng y costau sefydlu a amcangyfrifiwyd ar gyfer Safle A a grybwyllir yn yr Adroddiad a'r costau gwirioneddol a gafodd y cwmni, a hynny cyn pen 28 diwrnod i gyflwyno prawf o daliad (yr ail bwynt bwled ym mharagraff 101 yr Adroddiad).
2.5.3 Bod y Cyngor yn talu swm o £1,500 i Mr. W cyn pen 28 diwrnod mewn perthynas â'r costau a gafodd wrth fynd ar drywydd y mater gyda'r Cyngor a'r Ombwdsmon (trydydd pwynt bwled ym mharagraff 101 yr Adroddiad).
2.5.4 Bod y Comisiynwyr yn ystyried yr Adroddiad (paragraff 102 yr Adroddiad).

2.6 Mae eich Swyddogion yn derbyn argymhellion yr Ombwdsmon ynghylch iawndal a byddant yn argymell bod aelodau yn derbyn yr argymhellion hyn hefyd.

2.7 O ran yr argymhelliad y dylai'r Comisiynwyr ystyried yr Adroddiad, mae'r gyfraith yn eu gwahardd rhag gwneud hyn. Prif swyddogaeth y Comisiynwyr, mewn cyfraith, yw ymarfer swyddogaethau gweithredol y Cyngor yn unol â chyfarwyddyd y Gweinidog dyddiedig 16 Mawrth 2011 a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth eilaidd (paragraff 8 Adran 1 Atodlen 1 Rheoliadau 2007) yn gwahardd ystyried Adroddiad a wnaed gan yr Ombwdsmon rhag bod yn swyddogaeth weithredol. Felly, mae'n rhaid cyflwyno'r Adroddiad hwn i'r Cyngor llawn. Er gwaethaf y gwaharddiad hwn, mae eich swyddogion yn awgrymu dull arall o weithredu fel rhan o'r argymhellion a fydd, fe obeithir, yn rhoi sylw i'r pryderon a oedd gan yr Ombwdsmon wrth wneud ei argymhelliad.

## 3. Y Casgliadau o Gamweinyddu

3.1 Mae'r Adroddiad yn dod i ddau gasgliad o gamweinyddu fel y disgrifir ym mharagraff 2.3 uchod. Fel y cadarnhawyd eisoes, mae eich swyddogion yn derbyn y casgliadau o gamweinyddu ac yn argymell i'r Cyngor llawn y dylai ef, hefyd, dderbyn y casgliadau hynny.

3.2 Roedd rhoi caniatad i godi uchder y wal yn Safle B heb sylweddoli y byddai'r datblygiad wedi cael, o leiaf, effaith andwyol ar ddiogelwch y briffordd yn gamgymeriad amlwg ac yn gamweinyddu.

3.3 Roedd peidio â rhoi sylw prydlon i'r broblem a achoswyd gan uchder y wal yn Safle B a pheidio â datrys y broblem yn brydlon unwaith yr oedd y broblem a'i chanlyniadau wedi dod yn amlwg hefyd yn gamgymeriad a oedd yn gyfystyr â chamweinyddu.

3.4 Wrth dderbyn casgliadau'r Adroddiad o gamweinyddu, bydd y Cyngor llawn, yn ddiau, yn dymuno cymeradwyo bod y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff) yn adolygu dau fater sef:

3.4.1 Yr arferion rheoli datblygu perthnasol yn eu Hadrannau perthnasol, a
3.4.2 Eu trefniadau adrannol ar gyfer ymateb i gwynion ac ar gyfer ystyried a gweithredu'n brydlon ar gamau a gynigir i unioni cwynion cyfredol er mwyn lliniaru problemau a nodwyd.

## 4. Pennu Iawndal

4.1 Mae'r Ombwdsmon wedi pennu swm iawndal i'r cwmni o £30,626 ac mae'n argymell y dylid talu'r swm mewn dau randaliad (pwynt bwled cyntaf paragraff 101 yr Adroddiad).

4.2 Mae'r Ombwdsmon yn argymell hefyd y dylai'r Cyngor dalu'r costau ychwanegol a gafwyd wrth weithredu'r caniatâd ar gyfer Safle A oherwydd y camweinyddu (ail bwynt bwled paragraff 101 yr Adroddiad).

4.3 Oherwydd y camweinyddu bu oedi gyda chyhoeddi caniatad ar gyfer Safle A ac oedi hefyd o ran gallu'r cwmni i weithredu'r penderfyniad hwnnw. Bydd y ddau fater hyn wedi achosi colled i'r cwmni.

4.4 Mae'r Ombwdsmon wedi rhoi sylw gofalus i lunio ei argymhellion ar gyfer iawndal ac mae wedi'u seilio ar fanylion ariannol a gafwyd gan y cwmni a chyngor ariannol ar wahân gan ei Ymgynghorydd Ariannol.

4.5 Mae eich swyddogion o'r farn bod difrifoldeb y camweinyddu wedi achosi colledion i'r cwmni ac y dylai'r Cyngor dalu iawndal am y colledion hyn. Mae eich swyddogion, felly, yn argymell y dylai'r Cyngor dderbyn argymhellion yr Ombwdsman ar gyfer digolledu'r cwmni.

4.6 Yn ogystal, mae'r Ombwdsmon yn argymell bod y Cyngor yn talu swm o £1,500 i Mr. W cyn pen 28 diwrnod mewn perthynas â'r costau a gafodd wrth fynd ar drywydd y mater hwn gyda'r Cyngor a'r Ombwdsmon. Mae eich swyddogion yn argymell y dylai'r Cyngor dderbyn argymhelliad yr Ombwdsmon yn hyn o beth.

## 5. Argymhellion

5.1 Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn ystyried Adroddiad yr Ombwdsmon ac yn penderfynu fel a ganlyn:

5.1.1 Derbyn a chytuno gydag Adroddiad yr Ombwdsmon, ei gasgliadau a'i argymhellion.

5.1.2 Mabwysiadu'r argymhellion a nodir ym mharagraff 101 yr Adroddiad (tudalennau 40 a 41) ac awdurdodi eich swyddogion i weithredu'r argymhellion hynny o fewn yr amserlenni a nodwyd gan yr Ombwdsmon.

5.1.3 O ran yr argymhelliad a nodir ym mharagraff 102 yr Adroddiad, bod y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff) yn adolygu'r arferion rheoli datblygu perthnasol yn eu hadrannau perthnasol a'u trefniadau adrannol ar gyfer ymateb i gwynion ac ar gyfer ystyried a gweithredu'n brydlon ar gamau a gynigir i unioni cwynion cyfredol fel y gellir lliniaru problemau a nodwyd. Eu bod yn adrodd ar eu casgliadau i'r Comisiynwyr sy'n gyfrifol am eu gwasanaethau perthnasol a'u bod yn adrodd ar eu casgliadau i'r Bwrdd Comisiynwyr.

5.1.4 Er nad yw'n argymhelliad penodol gan yr Ombwdsmon, bod y Cyngor llawn yn awdurdodi'r Prif Weithredwr Dros Dro i ymddiheuro i Mr W am y camweinyddu.

**Papurau Cefndir**

Dim